## Taflen wybodaeth ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant os yw'r unigolyn sy'n dod i gysylltiad o dan 16 oed.

Cynlluniwyd y daflen wybodaeth hon i roi gwybodaeth i chi am yr archwiliad radiograffig deintyddol y mae'r deintydd wedi gofyn amdano ar gyfer eich plentyn.

Mae radiograffau deintyddol (pelydr-X) yn caniatáu i'r deintydd sy'n gyfrifol am ofal eich plentyn weld rhannau o'r dannedd a'r genau na ellir eu harchwilio dim ond trwy edrych y tu mewn i'r geg. Fe'u defnyddir i ganfod llawer o afiechydon gan gynnwys pydredd dannedd, clefyd periodontol (clefyd y deintgig) ac annormaleddau eraill yn y dannedd a'r genau.

Mae'r archwiliadau hyn yn defnyddio ymbelydredd i gynhyrchu'r ddelwedd. Mae pawb yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ar ffurf ymbelydredd cefndir naturiol. Prif ffynhonnell hyn yn y DU yw nwy radon sy'n cael ei ryddhau o greigiau ond mae ffynonellau eraill yn cynnwys Ymbelydredd Cosmig sy'n tarddu o'r gofod a rhai o'r bwydydd rydyn ni'n eu bwyta fel rhai pysgod cregyn.

Mae'r dos ymbelydredd a dderbynnir o radiograffeg ddeintyddol yn cyfateb i ychydig oriau neu ddyddiau ychwanegol o ymbelydredd cefndir naturiol, felly mae'r risg i iechyd eich plentyn yn isel iawn. Y brif risg iechyd yw datblygu canser. Fodd bynnag, mae'r risg yn fach iawn/yn ddibwys a byddai'r fantais i'ch plentyn o gael y radiograff(au) yn drech na'r risg i iechyd. Dangosir gwybodaeth ar gyfer archwiliadau radiograffig deintyddol cyffredin yn y tabl isod.

| **Archwiliad** | **Amser i dderbyn dos cyfatebol o ymbelydredd cefndir naturiol** | **Risg Ymbelydredd** |
|---|---|---|
| Radiograff mewnol y geg (Archwiliad pelydr-X lle gosodir plât delweddu bach y tu mewn i'r geg) | 8 awr | Dibwys |
| Radiograff Panoramig (Archwiliad pelydr-X sy'n dangos yr holl ddannedd ar un ddelwedd. Mae derbynnydd y ddelwedd y tu allan i'r geg) | 3 diwrnod | Lleiaf/Dibwys |
| Sgan Tomograffeg Gyfrifiadurol Pelydr Côn (Archwiliad sy'n cynhyrchu delwedd 3D o'r dannedd a'r genau) | 3-24 diwrnod | Lleiaf |

## Beth fydd yn digwydd pan dynnir y radiograff (llun pelydr-X)

- Pan fydd eich plentyn yn cael ei atgyfeirio at yr Adran Radioleg Ddeintyddol bydd naill ai'n cael ei weld gan aelod cymwys o staff neu gan fyfyriwr dan oruchwyliaeth uniongyrchol aelod cymwysedig o staff. Bydd y driniaeth yn cael ei hegluro i chi a'ch plentyn. Ar gyfer pob archwiliad, mae'n bwysig bod eich plentyn yn aros yn llonydd fel bod y delweddau a gynhyrchir o ansawdd digonol i ganiatáu i'r deintydd wneud diagnosis o unrhyw glefyd deintyddol.
- Os gwneir cais am 'radiograff mewnol y geg', bydd eich plentyn yn eistedd ar gadair a bydd y plât delweddu'n cael ei osod yn ofalus y tu mewn i'r geg a'r pelydr X yn cael ei anelu at y plât delweddu er mwyn creu'r ddelwedd. Ar gyfer radiograff panoramig bydd eich plentyn fel arfer yn sefyll ar ei draed a bydd yr uned pelydr-X yn cylchdroi o amgylch y pen i greu'r ddelwedd. Yn yr un modd, ar gyfer archwiliad tomograffeg gyfrifiadurol pelydr côn, bydd y peiriant pelydr-X yn cylchdroi o amgylch y pen i greu'r ddelwedd, ond yn gyffredinol bydd eich plentyn yn sefyll ar ei draed.
- Byddwch yn gallu gweld eich plentyn yn ystod yr archwiliad ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn rhaid i chi aros y tu allan i'r ciwbicl fel nad ydych yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd.
- Mae'r offer a ddefnyddir yn fodern a dewisir y cyswllt radiograffig isaf i gadw'r risg ymbelydredd (a'r risg) mor isel â phosibl.
- Unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, caiff y delweddau eu storio ar system radioleg yr ysbyty a gall eich deintydd eu gweld yn y clinig. Bydd y deintydd yn trafod y canlyniadau gyda chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'ch deintydd neu i un o'r staff yn yr Adran Radioleg Ddeintyddol.

INSERT QR code